**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Datblygu Polisi Economi ac Isadeiledd

**O bell drwy Microsoft Teams**

**Dydd Iau, 22 Hydref 2020 am 2.00 pm**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd C Anderson (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| P Downing | P K Jones | M A Langstone |
| W G Lewis | P Lloyd | P M Matthews |
| T M White | | |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Ben George | Arweinydd Tîm – Strategaeth Trafnidiaeth a Monitro diant |
| David Hughes | Principal Enigineer |
| Chloe Lewis | Swyddog Strategaeth Trafnidiaeth |
| Martin Nicholls | Cyfarwyddwr Lleoedd |
| Samantha Woon | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wyr): P R Hood-Williams

---

## 1 Derbyn datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

## 2 Cofnodion.

**Penderfynwyd** cymeradwyo cofnodion Pwyllgor Datblygu Polisi'r Economi ac Isadeiledd a gynhaliwyd ar 17 Medi 2020 ac 1 Hydref 2020 fel cofnod cywir.

## 3 Teithio Llesol.

Darparodd Arweinydd y Tîm, Strategaeth Trafnidiaeth a Monitro, grynodeb ar ddatblygu a chyflwyno'r Rhaglen Teithio Llesol.

Nododd yr Aelodau Fframwaith y Polisi, Rhwystrau a Thueddiadau, y Rhaglen Teithio Llesol, Prosiectau, Ymgyrch Hyrwyddo Llwybrau'r Bae, y Blaenraglen a Manteision Cymunedol.

Gofynnodd aelodau gwestiynau i'r swyddogion a ymatebodd yn briodol.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Swyddogion am eu hadroddiad llawn gwybodaeth.

**Penderfynwyd** nodi'r adroddiad a dylai'r pwyllgor archwilio canlyniadau'r ymarfer ymgynghori a fyddai'n cael ei gynnal yng ngwanwyn 2021.

## 4 Amnest ar Wastraff. (Llafar).

Cyfeiriodd y Pennaeth Rheoli Gwastraff at y mentrau blaenorol a gynhaliwyd gan yr awdurdod lleol drwy osod sgipiau (gyda gweithredwyr) mewn cymunedau. Fodd bynnag, cynhaliwyd y fenter hon cyn y sensitifrwydd presennol o ran rheoli gwastraff a'r gwahanol fentrau i alluogi preswylwyr i reoli ac ailgylchu eu gwastraff cartref eu hunain yn effeithiol.

Nodwyd y byddai darparu sgipiau gyda gweithredwyr mewn cymunedau yn llafurddwys iawn ac y gall achosi ddrwgdeimlad o ystyried y canolfannau ailgylchu da sydd ar waith. Hefyd, byddai'n gwrth-ddweud y strategaeth ailgylchu bresennol. Fodd bynnag, gellid cynyddu ymwybyddiaeth o dipio anghyfreithlon ac ailgylchu drwy ymarferion hyrwyddo arferol Rheoli Gwastraff.

Gofynnodd yr aelodau gwestiynau i'r swyddog a ymatebodd yn briodol.

Byddai sylwadau ynghylch y weithdrefn ar gyfer casglu gwastraff swmpus yn cael eu trosglwyddo i'r Aelod Cabinet perthnasol. Fodd bynnag, nododd yr aelodau fod y weithdrefn bresennol wedi'i chymeradwyo'n flaenorol gan y Cabinet.

Diolchodd y Cadeirydd i'r swyddog am ei gyflwyniad addysgiadol.

**Penderfynwyd** ar y canlynol:

1. nodi'r diweddariad.
2. Bydd y Cyfarwyddwr Lleoedd yn trafod y sylwadau a godwyd â’r Aelod Cabinet perthnasol.

## 5 Cynllun Gwaith 2020/2021.

Cyfeiriodd y Cadeirydd at y Cynllun Gwaith ar gyfer 2020-2021.

Gofynnodd y Cadeirydd i bob adroddiad yn y dyfodol fod ar ffurf ysgrifenedig, yn hytrach na diweddariadau llafar.

**Penderfynwyd** y dylai'r Cynllun Gwaith ar gyfer 2020/21 gynnwys y canlynol:

| **Dyddiad y Cyfarfod** | **Eitemau a fformat yr agenda** |
|---|---|
| 15 Hydref 2020<br>Wedi'i ganslo | 1. Amnest ar Wastraff (Diweddariad)<br>2. Teithio Llesol.<br>3. Strategaeth Toiledau Leol (Dolen i'w |

| | |
|---|---|
| | dosbarthu i'r Aelodau) |
| 22 Hydref 2020 | 1. Teithio Llesol.<br>2. Amnest ar Wastraff. |
| 19 Tachwedd 2020 | 1. Strategaeth Toiledau Leol |
| 17 Rhagfyr 2020 | 1. Strategaeth Isadeiledd Gwyrdd. |
| 21 Ionawr 2021 | 1. Economi Abertawe. |
| 18 Chwefror 2021 | |
| 18 Mawrth 2021 | |
| 22 Ebrill 2021 | 1. Teithio Llesol. |
| I’w drefnu | 1) Goblygiadau COVID-19 ar Dwristiaeth Abertawe.<br>2) Goblygiadau Brexit.<br>3) Eiddo gwag ar y Stryd Fawr.<br>4) Cartrefi fel Gorsafoedd Pŵer.<br>5) Gosod safleoedd bysus yn Abertawe. |

Daeth y cyfarfod I ben am 3.06 pm

**Cadeirydd**